

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

5/3/2015

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Faer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothi Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, Islwyn Pritchard Jones, Edith Roberts, Carol Rowlands

1. Croesawodd Y Maer bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Clerc am anfon llythyr o gydymdeimlad ar ran y Cyngor at deulu'r diweddar Isgoed Williams o Drawsfinydd a fu'n gefn i'r Cyngor yn y blynyddoedd a fu.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Datganodd Alun Price buddiant yn eitem 7, Cais Cynllunio am dyrbin gwynt.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/2/15 a chofnodion cyfarfod cyllid 19/2/15.
5. Nid oedd materion yn codi o gofnodion 5/2/15 nad oedd eisoes ar yr Agenda. Adroddwyd fod y gwaith fframio ac archebu'r hysbysfwrdd mewn llaw.
7. **Adroddiad y Clerc:**
Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi cytuno i fesur cyflymder ar y ffordd ddwyreiniol mewn i'r dref ac i adrodd yn ôl.
Cafwyd ymateb cadarnhaol i gais y Cyngor am bresenoldeb y warden traffig
Ymatebodd cynrychiolydd o'r banc Nat West fod y gwaith o glirio'r llanast yn y cefn mewn llaw.
6. **Materion y Cyngorydd Sir:** Adroddodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod datblygiadau a chydweithio ym mater Neuadd Buddug, fod cynlluniau'r ysgol gydol oes yn symud ymlaen, a bod mater agor Llwybr y Sgotwyr (ar hyd lan afon Tryweryn) yn cael sylw addawol.
7. **Materion Cynllunio:** Derbyniwyd gwahoddiad gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd am sylwadau ar gais cynllunio C15/0067/04/LL Codi twrbin gwynt 48m i frig y llafn wrth Coed y Foel Uchaf. Cytunwyd i fynegi pryder am faint y datblygiad a fyddai yn ei wneud yn amlwg iawn ac yn weladwy o dref Y Bala.
8. **Materion Cyllid**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chytunwyd i drosglwyddo £3,000 i'r cyfrif cyfredol.
 - ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis, sef am waith gosod goleuadau Nadolig ar goed y Stryd Fawr, ffi'r Archwiliwr, defnydd o'r Henblas a chyflog y Clerc.

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)1

9. Gohebiaeth

Llywodraeth Cymru: Ymatebwyd i'r ymgynghoriad ar Ddrafft Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol Arfaethedig.

Cyngor Gwynedd: i. Trafodwyd Ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Gwynedd a Môn
ii Derbyniwyd newyddlen Gaeaf Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Eraill: Derbyniwyd gwybodaeth am ffioedd parcio Parc Cenedlaethol Eryri
Derbyniwyd nifer o lythyron gan fudiadau lleol yn diolch am gefnogaeth ariannol y Cyngor

10. **Asedau'r Cyngor** - derbynnir adroddiad ar eu cyflwr y mis nesaf.

11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a soniodd am brysurdeb Canolfan Henblas. Cyfarfu'r Bartneriaeth gyda Chynghorwyr o Bowys yn ddiweddar a oedd eisiau dysgu o brofiad Partneriaeth Penllyn. Derbyniwyd copi o Gytundeb Gwynedd a gwybodaeth am gyfarfod gyda Dyfed Edwards parthed y Papur Gwyn (9/3/15)

12. **Materion y Cynghorwyr:**

Cytunwyd i anrhydeddu Arthur Arrowsmith ar ei ymddeoliad drwy ei wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor a chyflwyno plac y Cyngor iddo. Cytunwyd i wahodd ffotograffydd i gofnodi'r achlysur.

Cytunodd y Clerc ac Eifion Roberts i ymholi yn ehangach am dlysau y gellid eu cyflwyno ar ran Cyngor Tref Y Bala.

Rhoddodd Eluned Jones adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed neuadd Buddug.

Mynegwyd pryder am barcio blêr o flaen y Co-op a all arwain at ddamwain oherwydd diffyg gwelediad. Cytunwyd i roi gwybod i'r Warden Parcio.

Amser gorffen: 8.30